

## Gofal Cymdeithasol – Eich gwybodaeth, eich hawliau

### Ffeithlen 21

(Ebrill 2018)

Mae'r Ffeithlen hon yn esbonio pam mae timau Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin yn casglu gwybodaeth amdanoch a sut gallai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio.

Hefyd mae'n egluro eich hawl i weld eich cofnodion a sut i gael mynediad iddynt.

### **Pam mae timau Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Caerfyrddin yn casglu gwybodaeth amdanoch?**

#### **I'ch Helpu Chi**

Bydd gweithwyr proffesiynol mewn timau gofal cymdeithasol yn cadw cofnodion am unrhyw wasanaethau y maent yn eu rhoi ichi. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys gwybodaeth amdanoch chi, eich anghenion a sut rydym yn gweithio gyda chi i ddiwallu'r anghenion hyn.

Mae'r wybodaeth hon naill ai'n cael ei nodi ar bapur neu'n cael ei chadw ar system gyfrifiadurol. Defnyddir y cofnodion hyn gan weithwyr proffesiynol perthnasol sy'n gysylltiedig â'ch gofal i helpu i reoli'r gofal yr ydych yn ei dderbyn.

Fel rhan o rywfaint o'r gofal a'r cymorth yr ydych yn eu derbyn mae'n bosibl y byddwn yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol o sefydliadau eraill, er enghraifft GIG Cymru, a darparwyr gofal preifat a gwirfoddol. Os felly, mae'n bosibl y bydd angen rhannu rhywfaint o wybodaeth amdanoch fel y gall pawb sy'n gysylltiedig â'ch gofal gydweithio er eich lles chi.

Bydd gwybodaeth amdanoch dim ond yn cael ei defnyddio gan eraill sy'n gysylltiedig â'ch gofal neu'n cael ei rhoi iddynt os bydd angen y wybodaeth honno arnynt.

Pryd bynnag y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer eich gofal, caiff ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn:

- sicrhau mai dim ond yr isafswm o wybodaeth sy'n cael ei rannu;



I gael gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ewch i:  
[www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol](http://www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol)

- sicrhau bod rhwymedigaeth ar unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth amdanoch i'w chadw'n gyfrinachol ac i ddefnyddio'r wybodaeth dim ond ar gyfer y diben a nodwyd;
- sicrhau y bydd cytundebau rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau yn rheoli'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei rhannu;
- rhoi systemau diogel ar waith i helpu i atal mynediad diawdurdod i wybodaeth.

## **I Helpu Cyngor Sir Caerfyrddin**

Yn ogystal mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i gynnal a gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Gellir defnyddio'r wybodaeth i wneud y canlynol:

- adolygu'r gofal a roddir i unigolion i sicrhau ei fod o'r safon uchaf posibl;
- sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion unigolion yn y dyfodol;
- ymchwilio i gwynion, hawliadau cyfreithiol neu ddigwyddiadau pwysig;
- sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n gywir i dalu am y gwasanaethau y mae'n eu darparu;
- gwirio pa mor effeithiol y mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod a rhoi adroddiad ynghylch hyn. Mae'n ofynnol i'r Cyngor roi gwybodaeth ystadegol nad yw'n bersonol i gyrff llywodraethu megis Llywodraeth Cymru er mwyn mesur a monitro ei berfformiad;
- sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhoi gwerth am yr arian.
- Lle bynnag y bo modd, gwaredir yr holl wybodaeth y gellir ei defnyddio i adnabod unigolyn. Os nad oes modd gwneud hynny, mae rheolau a chontractau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel.

Weithiau mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gorfod defnyddio sefydliadau allanol i ddarparu rhai gwasanaethau gwybodaeth penodol, er enghraifft archwilio. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i'r sefydliadau hyn gydymffurfio â rheolau llym y Cyngor.

## **Cael mynediad i'ch cofnodion**

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn rhoi'r hawl ichi weld neu dderbyn copi o'r wybodaeth sydd wedi'i chofnodi amdanoch.

Byddwch bob amser yn derbyn gwybodaeth y mae gennych hawl iddi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai amgylchiadau lle na ellir darparu'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani.

Mae'n rhaid i geisiadau am gael mynediad i'ch cofnodion gael eu gwneud yn ysgrifenedig a dylech ddarparu digon o wybodaeth i'ch adnabod chi a nodi'r cyfnod o amser neu'r gwasanaeth penodol y mae arnoch angen cofnodion ar ei gyfer.

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhoi ichi o fewn mis ar ôl derbyn eich cais. Felly, er enghraifft, os cawn eich cais ar 1 Gorffennaf, bydd angen ymateb erbyn 2 Awst.

Os yw eich cais yn un cymhleth, mae hawl gennym o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol i ymestyn y dyddiad ymateb fel ei fod ddeufis yn hwyrach. Fe wnawn roi gwybod ichi cyn gynted â phosibl ar ôl cael eich cais a oes angen i ni wneud hyn.

Os dymunwch weld eich cofnodion, **yn y lle cyntaf dylech gysylltu â'ch gweithiwr cymdeithasol neu'ch tîm gwaith cymdeithasol.** Byddant yn ymwybodol o'ch amgylchiadau ac yn gallu cynnig cyngor i ateb eich gofynion penodol.

Os nad oes gennych gysylltiad â gweithiwr neu dîm ar hyn o bryd, gallwch hefyd gyflwyno cais drwy ysgrifennu at:

Rob Brain  
Rheolwr Gwybodaeth, Diogelwch ac Integreiddio  
Adeilad 2  
Parc Dewi Sant  
Heol Ffynnon Job  
Caerfyrddin  
SA31 3HB  
E-bost: rbrain@sirgar.gov.uk  
Ffôn: 01267 246566

### **Rhagor o wybodaeth**

Os bydd gennych unrhyw bryderon am y modd y defnyddir eich gwybodaeth dylech drafod y rhain â'r gweithiwr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'ch gofal.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio ewch i'r tudalennau yn ymwneud â Diogelu Data ar wefan y Cyngor [www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

**Os hoffech gael y daflen hon mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch ☎ 01267 228703**



I gael gwybodaeth am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol ewch i:  
[www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol](http://www.sirgar.llyw.cymru/gofalcymdeithasol)